



Ein cyf MA-LG-3951-21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

3 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Ionawr ynglŷn â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 ("y rheoliadau").

Fel y dywedais yn fy llythyr atoch, dyddiedig 14 Rhagfyr 2021, roedd y rheoliadau hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i nwyddau barhau i lifo ar draws Môr Iwerddon o 1 Ionawr 2022 ymlaen. Heb y diwygiadau a gyflwynwyd gan y rheoliadau hyn, byddai angen i fusnesau ym Mhrydain Fawr sy'n mewnfario anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion fel ffrwythau a llysiau gydymffurfio â gofynion rheoli iechydol a ffytoiechydol (SPS) a dim ond drwy borthladdoedd Cymru a ddynodwyd yn Safleoedd Rheoli Ffiniau ("BCPs") y gallent fynd i mewn i Brydain Fawr.

Nid oes unrhyw Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae darpariaethau dros dro y rheoliadau hyn yn gwthio'r gofynion ar gyfer cynnal gwiriadau iechydol a ffytoiechydol mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau i 1 Gorffennaf 2022. Mae'r mesurau a gymerir yn y rheoliadau hyn yn osgoi risg sylweddol o ddryswch yn y sector ac amharu ar y gadwyn cyflenwi bwyd i Brydain Fawr. At hynny, mae'r rheoliadau hefyd yn ymestyn yr esemptiad dros dro ar y gofyniad rhaghysbysu ar gyfer nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu a'u mewnfario i Brydain Fawr o ynys Iwerddon. Mae hynny, i bob pwrpas, yn cadw'r sefyllfa fel yr oedd ar gyfer nwyddau Iwerddon, yn hepgor y gofyniad rhaghysbysu ar gyfer nwyddau o Ogledd Iwerddon, ac yn lleihau unrhyw darfu ac ansicrwydd i fusnesau mewnfario ac allfario tra bo trafodaethau am Brotocol Gogledd Iwerddon yn parhau. Yn benodol, mae'r cwestiwn o ba nwyddau sy'n gymwys i gael mynediad dilyffethair i farchnad Prydain Fawr yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod diwydiannau ar yr ynys yn gysylltiedig â'r gogledd a'r de, yn enwedig yn y sector bwyd-amaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi trafod y diwygiadau arfaethedig yn y rheoliadau hyn a gofynnwyd am gydsyniad ffurfiol mewn llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 10 Rhagfyr. Nid oedd penderfyniad Llywodraeth y DU i barhau â'r esemptiad ar gyfer ynys Iwerddon rhag y gofyniad rhaghysbysu yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol ar gyfer y rheoliadau ac roedd yn ychwanegiad diweddarach at y rheoliadau. Fodd bynnag, gyda thoriad y Nadolig a chyfnod y gwyliau, a'r angen i liniaru'r effaith a'r tarfu posibl ar fusnesau Cymru, ystyriais fod y diwygiadau'n briodol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau a rhoddwyd cydsyniad ar 14 Rhagfyr. Roedd hyn yn galluogi i'r deddfwriaeth gael ei gosod erbyn 15 Rhagfyr ac yn sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad gofynnol.

Gallaf gadarnhau y gwnaeth fy llythyr cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol fynegi pryderon ynghylch sut yr oedd Llywodraeth y DU wedi mynd ati i wneud penderfyniadau yn yr achos hwn. Roedd y pryderon hyn hefyd yn canolbwyntio ar yr amserlenni byr ar gyfer diwygiadau a sut nad oedd y ffordd o fynd ati yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr Arglwydd Frost i *'weithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar weithredu'r amserlen newydd hon, o ystyried eu cyfrifoldebau datganoledig dros reolaethau bwyd-amaeth'*.

I gadarnhau, deddfwriaeth dros dro yw hon ac rwyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Cofion,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd